01/09/2015

Annwyl Bennaeth,

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o fenter newydd fydd yn rhan o Raglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.

Ar hyn o bryd mae'r Rhaglen yn cael ei darparu i'r holl ysgolion cyfun yng Nghymru fel rhan o'r cwricwlwm ABCh. Yn ychwanegol at hyn, ond dal o fewn cwmpas y Rhaglen, mae yna botensial i weithio'n agosach gyda phlant diamddiffyn neu'r rhai hynny fyddai'n gallu cael eu hymddieithrio (NEET) drwy gynnig rhaglen sy'n fwy addas ar eu cyfer.

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Rhaglen wedi datblygu pum gwers Cyfnod Allweddol Pedwar a pum Cyfnod Allweddol Tri fel uned achrededig ar Lefel Mynediad, Lefel 1 a Lefel 2 (mae Lefel 2 gyfwerth â TGAU gradd C) mewn partneriaeth ag Agored Cymru. Nod yr ymgyrch hon ydi rhoi cyfle i ysgolion weithio gyda'r Rhaglen i gyflawni mwy gyda'r disgyblion diamddiffyn drwy gynnig cymwysterau sy'n cydymffurfio â fframwaith sgiliau Llywodraeth Cymru. O ganlyniad i hyn bydd y berthynas sy'n bodoli rhwng eich ysgol chi a'r Rhaglen yn gryfach.

Mae unedau'r RhGCACG wedi cael eu datblygu gan Agored Cymru ac mae ganddynt statws FfCCh (Fframwaith Cymwysterau a Chredydau). Hefyd mae'r credydau yn drosglwyddadwy fydd yn galluogi'r dysgwyr i ennill y cymwysterau ar eu cyflymdra eu hunain.

Gallwch weld disgrifiad llawn o'r unedau ar wefan Agored Cymru www.agored.cymru

| | | |
|---|---|---|
| **CA4** | **Mynediad 3** | **Agweddau Cymdeithasol a Chyfreithiol ar Ddiogelwch Personol** |
| HB1E3CY034 | | www.agored.cymru/Unedau-a-Chymwysterau/Uned/CDJ460 |
| **CA4** | **Lefel 1** | **Agweddau Cymdeithasol a Chyfreithiol ar Ddiogelwch Personol** |
| HB11CY075 | | www.agored.cymru/Unedau-a-Chymwysterau/Uned/CDF493 |
| **CA4** | **Lefel 2** | **Agweddau Cymdeithasol a Chyfreithiol ar Ddiogelwch Personol** |
| HB12CY061 | | www.agored.cymru/Unedau-a-Chymwysterau/Uned/CDF494 |
| **CA3** | **Mynediad 3** | **Atal Trosedd a Chadw'n Ddiogel** |
| QH5E3CY002 | | www.agored.cymru/Unedau-a-Chymwysterau/Uned/CDJ457 |
| **CA3** | **Lefel 1** | **Atal Trosedd a Chadw'n Ddiogel** |
| QH51CY005 | | www.agored.cymru/Unedau-a-Chymwysterau/Uned/CDJ458 |
| **CA3** | **Lefel 2** | **Atal Trosedd a Chadw'n Ddiogel** |
| QH52CY004 | | www.agored.cymru/Unedau-a-Chymwysterau/Uned/CDJ459 |

Mrs Faith McCready
Cydlynydd Cenedlaethol y RhGCYCG
Gorsaf Heddlu Porthcawl
100 Heol John
Porthcawl CF36 3DT

National Coordinator of the AWSLCP
Porthcawl Police Station
100 John Street
Porthcawl CF36 3DT

Tel/Ffôn: 01656 305807
Mob/Sym: 07791 102592
E-mail/E-bost: faith.mccready@south-wales.pnn.police.uk

**CA4 Mynediad 3 Agweddau Cymdeithasol a Chyfreithiol ar Ddiogelwch Personol**
**CA3 Mynediad 3 Atal Trosedd a Chadw'n Ddiogel**

Mae pob uned wedi'i datblygu i'w chyflwyno fel bloc o ddeg gwers, 5 gwers gan y Swyddog Cymuned Ysgol yr Heddlu a'r 5 gwers atodol gan yr athro/athrawes. Fe argymhellir bod gwers y swyddog a'r athro/athrawes yn cael eu cynnal yn yr un wythnos ac os ydi'r amserlen yn caniatáu, fel gwers ddwbl.

Mae'r uned CA4 yn cynnwys y pum gwers canlynol:

1. Camddefnyddio Sylweddau – Cyfraith Cyffuriau
2. Camddefnyddio Alcohol – Dwbl Trwbl
3. Perthnasau Diogel – Na yw Na!
4. Ecsploetio Rhywiol – Twyll Peryglus
5. Gyrru'n Beryglus – COW

Mae'r Uned CA3 yn Cynnwys y pum gwers canlynol:

1. Camddefnyddio Sylweddau – Edifar y Dydd
2. Camddefnyddio Alcohol – Meddwl am Yfed
3. Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Dewis Kiddo
4. Diogelwch ar y Rhyngrwyd – Edrychwch Pwy Sy'n Siarad
5. Perthnasoedd Diogel – Niwed Cudd

Mae **gwefan Agored Cymru** yn cynnwys gwybodaeth am yr uned, matrics asesu'r dysgwr a llyfr gwaith y disgybl. Gallwch lawrlwytho'r llyfrynnau gwaith hyn, neu fel arall mae e-lyfrau ar gael i'r disgyblion ei lenwi ar-lein.

Mae'r adran ar gyfer athrawon ar **wefan Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan**, yn cynnwys y deunydd cefnogi y bydd yr athro/athrawes ei angen ar gyfer yr unedau:

1. Cyflwyniad PowerPoint
2. Taflenni gwaith ar gyfer disgyblion Lefel 1
3. Llyfr atebion yr athro/athrawes
   www.schoolbeat.org/cy/athrawon/agored-cymru/

Mae'r holl adnoddau hyn ar gael am ddim ac yn ddwyieithog.

Rwy'n gobeithio y bydd eich ysgol yn teimlo bod y datblygiad hwn o fewn RhGCACG o fudd i chi ac y byddwch yn manteisio ar y cyfle i weithio hyd yn oed yn agosach gyda'r Rhaglen er budd y disgyblion dan sylw.

Yn gywir,

**Faith McCready**
Cydlynydd Cenedlaethol
Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan

Mrs Faith McCready
Cydlynydd Cenedlaethol y RhGCYCG
Gorsaf Heddlu Porthcawl
100 Heol John
Porthcawl CF36 3DT

National Coordinator of the AWSLCP
Porthcawl Police Station
100 John Street
Porthcawl CF36 3DT

Tel/Ffôn: 01656 305807
Mob/Sym: 07791 102592
E-mail/E-bost: faith.mccready@south-wales.pnn.police.uk